Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Ionawr 2008 — Rhifyn 7

Yn y Rhifyn Hwn:

• Golwg Newydd i Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd yn Abertawe • Bandiau ysgol yn disgleirio mewn Her Cerddoriaeth Wrth-Yfed a Gyrru • Cystadleuaeth Poster Yfed-a-Gyrru • Codi arian wrth ddysgu am Ddiogelwch ar y Ffyrdd • Agor Canolfan Amlbwrpas • Hyfforddwyr Beicio'n Cyrraedd y Safon • Enillwyr Gwobrau Cymru • Driving for Work • Lefelau Traffig yn Codi •Cynllun i Estyn y Prawf MoT • Beyond 2010 • Gostyngiad o 40% yn y Defnyddio ar Ffonau Symudol • Loteri: £50m ar gyfer llwybrau

Golwg Newydd i Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd yn Abertawe

Erbyn hyn, mae Clwb Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd yn Ninas a Sir Abertawe yn rhedeg ers 7 mlynedd. Mae dros 40 o ysgolion cynradd yn ardal Abertawe yn aelodau o'r cynllun ar hyn o bryd, a rhagor yn dymuno ymaelodi ar gyfer 2007/8.

Mae golwg newydd i'r Clwb yn Abertawe yn sgil lansio gwisg swyddogol "cŵl". Caiff y Swyddogion Iau gap pêl-fas, sachell a chrys-t. Ar bob dilledyn bydd brand y Swyddogion Iau yn arddull Adran Heddlu Efrog Newydd (N.Y.P.D.)

Y Stori Lawn»

J.R.S.O

Bandiau ysgol yn disgleirio mewn Her Cerddoriaeth Wrth-Yfed a Gyrru

Cynhaliwyd ail Her Cerddoriaeth Diogelwch Ffyrdd Gwent nos Lun 26ain Tachwedd yn Theatr y Congress, Cwmbrân. Bu'n noson gyffrous ac yn llawn o hwyl y cystadlu. Ond uwchlaw'r holl hwyl fe drosglwyddwyd neges ddifrifol am beryglon yfed a gyrru.

Aeth un band ar ddeg o ysgolion ledled Gwent i'r afael â'r Her. Roedd pob band wedi cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar thema wrth-yfed a gyrru, a hynny'n aml fel rhan o'u gwaith ysgol. Perfformiwyd eu caneuon gerbron panel o bedwar beirniad, a phob beirniad yn arbenigwr ar gerddoriaeth neu ar ddiogelwch ar y ffyrdd.
Cafwyd amrywiaeth mawr o fathau o gerddoriaeth, a pherfformiwyd pob un ohonyn nhw mewn ffordd arbennig o ddawnus a brwd. Tasg anodd i'r beirniaid oedd penderfynu ar y buddugwyr, ond dyma'r canlyniadau a gafwyd yn y pen draw:-

1af, Angel of Chaos o Ysgol Gyfun Glynebwy gyda 'Just Stop'
Ail, Band Ysgol Abersychan gyda 'Please Stop This'
3ydd, Diminuendo o Ysgol Gyfun Tredegar gyda 'Crisis'

Cyflwynodd y Prif Arolygydd John Pavett o Heddlu Gwent y gwobrau, sef £250 yr un i'r band buddugol a'u hysgol. Cafodd y band a ddaeth yn ail, a'u hysgol, £150 a chafodd y band a ddaeth yn drydydd, a'u hysgol, £100. Cafodd rhoddion a chofroddion ychwanegol eu rhoi gan siopau ASDA ym Mryn-mawr, Dyffryn, Coed-duon a Chaerffili.
Gwnaeth y neges gref ac amlwg argraff ar bawb yn y Theatr. Roedd hi'n amlwg bod y myfyrwyr wedi meddwl yn ddwfn am y pwnc ac am y chwalfa emosiynol sy'n digwydd pan fydd gwrthdrawiad ar ôl i bobl fod yn yfed. Wrth grynhoi, fe ddywedodd Dave Powell o Gwent Music (un o'r beirniaid), "Roedd cymaint o ôl meddwl ar y geiriau. Roedden nhw'n cyffwrdd i'r byw, yn enwedig llinell band Ysgol Gorllewin Mynwy, '...how can one drink crush 20 people's lives?' Gobeithio y bydd ergyd y neges heno'n para am amser hir."

Cystadleuaeth Poster Yfed-a-Gyrru

Cystadlodd miloedd o blant o bob rhan o Gymru yng Nghystadleuaeth 2007 i lunio Poster Gwrth-Yfed a Gyrru. Daeth yr 16 o enillwyr rhanbarthol i seremoni gyflwyno adeg lansio'r Ymgyrch Wrth-Yfed a Gyrru ar 3 Rhagfyr yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd.

Poster gan Toby Williams o Ysgol Uwchradd Tywyn, Gwynedd, a ddewiswyd i'w ddosbarthu ledled Cymru.

Llwytho poster 2007 i lawr (fformat PDF 305kb)

Cewch weld y posteri buddugol yma

Codi arian wrth ddysgu am Ddiogelwch ar y Ffyrdd

Mae plant ysgol o Sir Gaerfyrddin wedi bod yn dysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd - gan godi arian i elusen yr un pryd. Mae disgyblion o bob rhan o'r sir wedi codi miloedd o bunnoedd i Blant mewn Angen. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae cwisiau diogelwch ar y ffyrdd a digwyddiadau noddedig wedi codi cymaint â £9,515 ac mae rhagor o arian yn dal i gael ei anfon i mewn at y swyddogion diogelwch y ffyrdd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

Ymunodd masgot diogelwch ffyrdd y sir, Gari Gofal, â Pudsey Bear y BBC ar gyfer ymgyrch y cyngor.

Cymerodd ysgolion cynradd ledled Sir Gaerfyrddin ran mewn gweithgareddau codi-arian a oedd yn cyfleu neges am ddiogelwch ar y ffyrdd. Codwyd yr arian yn ystod taith gyflym i 62 o ysgolion cynradd yn ystod yr Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd. Meddai'r Rheolwr Diogelwch ar y Ffyrdd, Keith Griffiths: "Byddwn ni bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o addysgu plant am faterion diogelwch ar y ffyrdd ac roedden ni ar ben ein digon o weld ymateb yr ysgolion. Wnaethon ni erioed ddisgwyl codi cymaint o arian ac rydyn ni'n gobeithio cael dros £10,000 i gyd. Mae hyn wedi bod yn ymarfer gwerthfawr iawn o ran addysgu plant a chodi arian i elusen yr un pryd."
Gari Gofal yw wyneb rhaglen diogelwch ffyrdd y cyngor. Bydd y swyddogion yn defnyddio'r ddraig, sy'n saith troedfedd o daldra, i gynyddu ymwybyddiaeth plant ysgol a chwtogi ar nifer yr anafiadau ar y ffyrdd. Meddai'r cynghorydd Pam Palmer, sy'n aelod o Fwrdd Gweithredol Cludiant y Cyngor: "Mae'n hanfodol addysgu plant am ddiogelwch y ffordd yn gynnar iawn. Mae gwaith aruthrol yn cael ei wneud yn Sir Gaerfyrddin ac roedd yr ymgyrch hon yn ffordd wych o gynnwys pobl ifanc ynddo. Llongyfarchiadau i bawb ar eu hymdrechion."

Agor Canolfan Amlbwrpas

Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru (y DSA) wedi agor Canolfan Amlbwrpas Profion Gyrru yng Ngwent, y gyntaf o'i bath yng Nghymru. Mae canolfan Casnewydd yn un o rwydwaith cenedlaethol ohonynt sy'n cael eu datblygu gan y DSA i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd, a hynny drwy gynnwys gofod ynddi ar gyfer gofynion y Prawf newydd ar Feiciau Modur (a ddaw i rym yn 2008) a darparu gwell cyfleusterau i'r cwsmeriaid.

Yn Stephenson Street, Casnewydd, NP19 4XH, y mae'r Ganolfan newydd. Cewch wybodaeth am ganolfannau profi amlbwrpas y DSA yn www.dsa.gov.uk

Hyfforddwyr Beicio'n Cyrraedd y Safon

Yn ddiweddar, fe gwblhaodd deuddeg o feicwyr brwd o'r Gogledd, o amrywiaeth o gefndiroedd, gwrs hyfforddi pedwar-diwrnod fel rhan o'r broses o gael eu hachredu'n Hyfforddwyr Beicio'r Safonau Cenedlaethol.

Cawsai'r cwrs, a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Dinbych ac a drefnwyd gan Cycle Experience www.cycleexperience.com, ei ariannu gan amryw o awdurdodau'r Gogledd wrth iddynt baratoi ar gyfer graddol gyflwyno Hyfforddiant Beicio i'r Safonau Cenedlaethol mewn ysgolion a sefydliadau eraill.

Enillwyr Gwobrau Cymru

Mewn seremoni wobrwyo yn Llundain mae Cymdeithas Ceffylau Prydain (y BHS) wedi dangos ei gwerthfawrogiad i'r unigolion a'r mudiadau sydd wedi cefnogi gwaith yr elusen flaenllaw hon. Yn y seremoni yn Neuadd y Cyfrwywyr yn Ninas Llundain fe gyflwynodd y BHS 26 o wobrau i unigolion neu fudiadau sydd wedi cyfrannu'n aruthrol i'w gwaith. Tynnodd y gwobrau nodedig hynny – a gyflwynwyd gan Desi Dillingham, Llywydd y Gymdeithas – sylw at y gwaith rhyfeddol sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni ar ran ceffylau a marchogion Prydain.

Meddai Patrick Print, Cadeirydd a Chymrawd o Gymdeithas Ceffylau Prydain: "Enillwyr y gwobrau hyn yw glewion di-sôn-amdanyn nhw byd ceffylau – y bobl sy'n bwrw ati'n dawel a di-baid i weithio er lles pob marchog a gyrrwr. Maen nhw'n cyflawni camp aruthrol ac fe ddiolchwn iddyn nhw am bopeth y maen nhw wedi'i wneud."

Eleni, ym Mlwyddyn Jiwbilî Ddiemwnt Cymdeithas Ceffylau Prydain, fe anrhydeddwyd Terry Jones (Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd Sir Ceredigion) â'r Wobr Diogelwch yn y Gymuned am ei ymroddiad i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd. Mae aelodau Diogelwch Ffyrdd Cymru'n llongyfarch Terry'n gynnes ar y gamp nodedig hon.

Yn ogystal, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wobr fel yr Awdurdod Lleol sydd fwyaf gweithgar wrth agor llwybrau i geffylau a'u marchogion. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthi'n hyrwyddo buddiannau marchogion ers rhai blynyddoedd. Ers iddynt gymryd ffrwyth arolwg Cyfrif Pennau y BHS (arolwg y bu iddynt gymryd rhan weithgar ynddo) i ystyriaeth, maent wedi ceisio darparu llwybrau marchogaeth newydd mewn llawer ardal yn y sir, yn ogystal â gwella'r rhwydwaith presennol o lwybrau ceffyl.

Driving for Work: Fitness to Drive

Yn llyfryn newydd RoSPA 'Driving for Work: Fitness to Drive' rhoir cyngor ymarferol i helpu cyflogwyr i osod addasrwydd i yrru yng nghyd-destun rheoli'r risg alwedigaethol ar y ffyrdd a pholisïau sefydliadau ar iechyd galwedigaethol.



Mae'r adnodd hwn, sydd ar gael yn rhad ac am ddim o **wefan RoSPA** , yn helpu cyflogwyr i lunio systemau ymarferol i asesu pa mor addas-i-yrru yw eu staff, ac i roi'r cymorth angenrheidiol neu addasu tasgau gwaith. Bydd hefyd yn eu helpu i gynyddu ymwybyddiaeth eu staff o bwysigrwydd y mater.

Ynddo, ceir cyngor am yr amodau corfforol a gwybyddol a all effeithio ar yrru. Darganfu arolwg, er enghraifft, i 90% o yrwyr (gyrwyr ceir cwmni, beiciau modur, bysiau a lorïau trwm) ddweud nad oedd eu cyflogwr yn mynnu iddynt gael prawf llygaid. Roedd mwy na'u hanner heb gael prawf ar eu llygaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd bron un o bob pump heb gael un am fwy na 5 mlynedd. Cyfaddefodd 4% iddyn nhw gael damwain neu fod bron â bod mewn gwrthdrawiad am fod eu golwg yn wael.

Ewch i wefan RoSPA i **lwytho PDF ohono i lawr** ac i weld **adnoddau eraill sydd ar gael yn rhad ac am ddim ynghylch diogelwch ar y ffyrdd**

Traffig yn Dal i Gynyddu

Rhwng 2005 a 2006, cododd y traffig ar ffyrdd Prydain 1.4% i 506 biliwn o gilometrau cerbyd – y tro cyntaf iddo godi dros 500 biliwn km.

Traffig ceir oedd bron pedair rhan o bump o'r cyfanswm. Mae traffig ceir wedi codi 12% ers 1996, a chymaint ag 850% ers 1951. Ond traffig faniau ysgafn sydd wedi cynyddu fwyaf dros y blynyddoedd diwethaf, sef bron 40% ers 1996.

Gallwch weld Ystadegau Traffig Ffyrdd Awdurdodau Lleol yma

Gallai cynllun estyn yr MoT 'achosi 150 yn rhagor o farwolaethau'

Gallai cynigion y llywodraeth i geir gael prawf MoT bob yn ail flwyddyn ac nid tan iddyn nhw fod yn bedair blwydd oed arwain at 150 yn rhagor o farwolaethau ac at filoedd yn rhagor o anafiadau ar y ffyrdd, yn ôl arbenigwyr sydd wedi condemnio'r syniad am resymau diogelwch.

Mae'r syniad, sydd wedi deillio o'r Trysorlys, yn dilyn amserlenni'r gweinyddiaethau trafnidiaeth mewn llu o wledydd yn Ewrop. Yno, nid oes angen archwiliad ond bob yn ail flwyddyn ac ar gerbydau sydd dros bedair oed. Yn ôl Fforwm Masnach yr MoT, os caiff gwiriad bob dwy flynedd ei fabwysiadu ac os bydd oedi am flwyddyn arall cyn gweithredu'r prawf, bydd hyd at 150 yn rhagor o farwolaethau ar y ffyrdd bob blwyddyn a 1,400 o anafiadau mawr ac 11,000 o fân anafiadau oherwydd cynnydd yn nifer y gwrthdrawiadau.

Yn ôl TyreSafe, Cyngor y Diwydiant Teiars gynt a sefydliad mwyaf blaenllaw Prydain ym maes diogelwch teiars, byddai'r syniad yn 'gam difrifol yn ôl' ac fe allai gynyddu nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, yn enwedig o ran damweiniau wrth lithro ar ffyrdd gwlyb. Yn ôl TyreSafe, mae teiars diffygiol – sydd â dyfnder o lai nag 1.6 mm yn eu patrwm – yn ffactor sy'n cyfrannu at lu o ddamweiniau ar y ffyrdd, yn enwedig ar ffyrdd gwlyb.

Yn ôl ffigurau diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth, mae bron un o bob tri cherbyd yn methu'r prawf MoT a bydd dros 7% o geir yn methu'r archwiliad blynyddol oherwydd problemau gyda'u teiars. Amcangyfrif ymchwil TyreSafe yw bod gan 12% o'r cerbydau ar ffyrdd Prydain o leiaf un teiar diffygiol, a bod gan 12% arall o leiaf un teiar ag ôl traul difrifol arno.

Meddai llefarydd: "Fydd llawer o yrwyr ddim yn gwirio teiars eu cerbydau'n gyson, a'r prawf MoT yw'r unig adeg y caiff dyfnder y patrwm, ochrau'r teiars a phwysau'r aer ynddyn nhw eu harchwilio. Dyma pam y mae TyreSafe yn gwrthwynebu estyn hyd y cyfnod rhwng y profion yn bendant iawn." Dywed y Trysorlys y byddan nhw'n ymgynghori â'r heddlu a grwpiau diogelwch ar y ffyrdd cyn cyflwyno unrhyw newid. O'r cynigion mewn adroddiad gan yr Arglwydd Davidson ar weithredu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn y DU – adroddiad a gawsai ei gomisiynu gan y Llywodraeth – y daeth yr argymhelliad.

Honnir y gallai'r newidiadau i'r prawf MoT arbed rhyw £465 miliwn i fusnesau a defnyddwyr. Dadl yr adroddiad yw bod amlder y profi ar gerbydau ymhlith yr uchaf yn yr Undeb Ewropeaidd, a'r ffaith fod ceir wedi newid llawer ers 1968 [pryd y cyflwynwyd system yr MoT], yn golygu bod modd dadlau bod gyrwyr yn y DU yn wynebu costau diangen o'u cymharu â gyrwyr mewn aelod-wladwriaethau eraill. Ewch i www.tyresafe.org i gael rhagor o fanylion

Beyond 2010

Beyond 2010 yw'r adroddiad ymchwil diweddaraf gan PACTS, ac fe'i rhyddhawyd ddydd Mawrth 16eg Hydref. Bellach, mae modd llwytho'r adroddiad a'r crynodeb gweithredol ohono i lawr mewn fformat PDF drwy'r cysylltau isod. Mae Beyond 2010 hefyd ar gael mewn copi llawn, ar CD-ROM neu drwy e-bost drwy wneud cais amdano upon request.

Diben prosiect ymchwil Beyond 2010 yw cynnig dadansoddiad eang o'r materion a fydd yn llywio hynt polisïau diogelwch ar y ffyrdd yn y dyfodol. Ei nod yw tynnu sylw at y meysydd allweddol lle mae angen parhau â gwaith rhagorol y Deyrnas Unedig o gwtogi ar farwolaethau ac anafiadau ar ein ffyrdd.

Beyond 2010 – Crynodeb Gweithredol

Beyond 2010 – Yr Adroddiad Llawn

Gostyngiad o 40% yn y Defnyddio ar Ffonau Symudol

Mae arolwg newydd yn dangos bod nifer y gyrwyr ceir sy'n defnyddio ffonau symudol yn eu llaw wrth yrru wedi gostwng 40%, yn ôl y Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Jim Fitzpatrick.

Ni welwyd ond 1% o yrwyr ceir yn defnyddio ffôn symudol yn eu llaw wrth yrru, o'i gymharu ag 1.7% y llynedd, yn ôl arolwg a gynhaliwyd ym mis Awst.

Wrth siarad yn Narlith Flynyddol Cyngor Ymgynghorol y Senedd ynghylch Diogelwch Trafnidiaeth, dywedodd Jim Fitzpatrick fod gyrwyr sydd wedi defnyddio'u ffonau symudol yn anghyfreithlon mewn perygl, ers mis Chwefror, o gael tri phwynt ar eu trwydded a dirwy o £60. Cyflwynodd y Llywodraeth y gosb lem hon er mwyn cwtogi llawer iawn ar ddefnyddio ffonau symudol wrth yrru, ac mae'r arolwg yn awgrymu bod mwy a mwy o yrwyr yn gwrando ar y neges.

"Bydd defnyddio unrhyw ffôn symudol wrth yrru yn tynnu'ch sylw – mae'n eich rhwystro rhag rhoi'ch sylw llawn i'r ffordd ac yn arafu'ch amserau ymateb. Gan fod yr ymchwil yn dangos y gall beri i wrthdrawiad fod bedair gwaith yn fwy tebyg o ddigwydd, mae'n hanfodol i yrwyr beidio â defnyddio'u ffôn wrth yrru."

Dangosodd yr arolwg, a gomisiynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth ac a gyhoeddwyd gan y TRL, fod nifer y gyrwyr a welwyd rhwng Medi 2006 ac Awst 2007 wedi gostwng fel hyn:

- Nifer y gyrwyr ceir a oedd yn defnyddio ffôn yn eu llaw wedi gostwng o 1.7% i 1%
- Nifer y gyrwyr ceir a oedd yn defnyddio ffôn heb ei ddal yn eu llaw wedi gostwng o 0.9% i 0.4%
- Nifer y gyrwyr eraill a oedd yn defnyddio ffôn yn eu llaw wedi gostwng o 2.9% i 2.4%
- Nifer y gyrwyr eraill a oedd yn defnyddio ffôn heb ei ddal yn eu llaw wedi haneru o 1.2% i 0.6%.

Loteri: £50m ar gyfer llwybrau



Mae cynllun i wella rhwydwaith beicio a cherdded wedi ennill £50 miliwn gan y Gronfa Loteri Fawr. Enillodd y mudiad Sustrans yr arian ar ôl cael mwy na 286,000 o bleidleisiau gan y cyhoedd. Bydd 79 o gymunedau ar eu hennill, gan gynnwys sawl un yng Nghymru.

Caiff pontydd, twneli a rhwydweithiau eu creu i sicrhau bod gwell cyfleusterau i feicwyr a cherddwyr. Fe drechodd Sustrans dri mudiad arall.

Yng Nghymru caiff yr arian ei wario ar 10 llwybr. Bydd pont i gerddwyr rhwng Caerdydd a Phenarth, dwy bont dros Afon Gwy yn Nhrefynwy a Thyndyrn, a phont rhwng y Rhyl a Bae Cinmel.
Y Stori lawn

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2008 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600